# CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI
# LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL


Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Bethan Roberts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorLlandygai@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd
yn rhithiol dros Zoom
**Nos Iau 17 Tachwedd 2024 am 18.30**

**PRESENNOL:**
Y Cynghorydd Gareth P Williams
Y Cynghorydd Dafydd Owen
Y Cynghorydd Mary Hayes
Y Cynghorydd David Roberts
Y Cynghorydd Lowri Jones
Y Cynghorydd Mair O Pierce
Y Cynghorydd Huw Jones
Y Cynghorydd Sian Beidas
Y Cynghorydd Iwan Hywel

**Cynghorydd Sir**
Cyng. Beca Roberts

1. **Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng. Lowri Jones.

   **Ymddiheuriadau** gan y Cyngr. Dafydd Roberts ac Anwen Jones.

2. **Cofnodion**
   **Penderfynwyd:** Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2024.

3. **Materion yn codi o'r cofnodion**

**3.1** **Seddi Gwag -** Y Clerc wedi hysbysebu'r sedd wag eto, dim ymateb hyd yn hyn. Y Clerc wedi hysbysu'r adran etholiadau yng Nghyngor Gwynedd ynglŷn ag ymddiswyddiad Carwyn Edwards. Cadarnhawyd yr adran etholiadau nad oedd cais am etholiad wedi ei dderbyn, felly yn iawn i'r gymuned gyfethol aelod newydd.

**3.2** **Biniau Baw Ci** – Nodwyd fod y Cyng. Beca Roberts wedi gwneud cais am finiau newydd – un yn Sling, un ar Lon y Grug ac un ar bont Penrala yn Nhregarth. Nid yw'r Cynghorydd yn derbyn unrhyw ymateb gan Gyngor Gwynedd ar y mater hwn. Y Clerc i holi Cyngor Gwynedd eto.

**3.3** **Mynedfa Lon Las Ogwen ger Modurdy Pandy** – estynu'r linell wen a gosod 'road studs' coch (Ian Morgan). Adroddwyd y Clerc fod y llinellau melyn dwbl wedi cael ei osod, ond nid y 'road studs' coch. Y Clerc wedi cysylltu gyda Ian Morgan, dim ymateb hyd yn hyn.

**3.4** **Llecyn Tir Bont Twr** - Adroddwyd fod y Clerc wedi cysylltu gyda'r adran Lleiniau Tir yng Nghyngor Gwynedd, a'u bod wedi trosglwyddo'r mater i'r adran gyfreithiol - ar y gweill.

**3.5** **Pont y Pandy -** Nodwyd y Cyng. Dafydd Owen ei fod yn anfodlon gydag ymateb NMWTRA, a bod angen archwiliad diogelwch ar y safle. Y Clerc i gysylltu gyda

NMWTRA i amlygu'r pryderon ac i ofyn am archwiliad diogelwch manwl ar y safle. Dim ymateb hyd yn hyn.

**3.6 Polisi Iaith y Cyngor –** Cadarnhawyd y Cyng. Iwan Hywel fod y ddogfen drafft wedi ei gwblhau. Y Clerc i gylchredeg y ddogfen i bawb ac i gynnwys yr eitem ar yr agenda ym mis Ionawr.

**3.7 Murlun Canolfan Tregarth** – Cyflwynwyd drafft o'r murlun i'r Cyngor – hapus iawn i'r gwaith symud yn ei flaen.

**3.8 Parc y Bwlch -** Nodwyd fod y contractwr gwreiddiol wedi tynnu allan, ac mae contractwr newydd wedi'i benodi. Fydd y gwaith yn cychwyn yn fuan iawn.

**4. Gohebiaeth**

Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Tachwedd 2024'

**4.1 Carnifal Bethesda - Rhodd flynyddol i'r Carnifal -** yn ddiffuant, nid fydd modd cynnwys y Carnifal ar yr archeb, ond fod croeso i'r Pwyllgor gwneud cais am rodd fel pob mudiad arall.

**4.2 Goleuadau Stryd Anghyfyngedig Cefnffyrdd - A5 Gogledd Bethesda** - Penderfynwyd ein bod ni fel Cyngor yn awgrymu'n gryf y dylai fod yna cyfyngiad o 40 m.y.a. trwy'r darn yma o'r A5 i gyfuno gyda'r cyfyngder 40 m.y.a. sy'n dechrau yn Bont y Pandy hyd at gyrion Bethesda.

**4.3 Cyngor Cymuned Llanllechid – Ystadegau trigolion Cae Rhosydd** – Cafwyd trafodaeth, ond dim sylw ar yr ystadegau ar hyn o bryd.

**4.4 Etholiadau Cyngor Gwynedd - Arolwg Cymunedol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 –** Nid yw'r ohebiaeth yn berthnasol i'r Cyngor hwn.

**4.5 Cyngor Cymuned Llanystumdwy – Cynnig i Gymeradwyo Adroddiad Comisiwn Cymunedau Cymraeg –** Penderfynwyd ein bod yn cefnogi fel Cyngor Cymuned, ond y bydd y Cyng. Iwan Hywel yn addasu ychydig ar yr ymateb cyn danfon ymlaen at yr unigolion perthnasol.

**5. Model Reoliadau Ariannol 2024**

Penderfynwyd mabwysiadu'r ddogfen hwn.

**6. Ethol Is-gadeirydd**

Yn dilyn pleidlais, penderfynwyd ethol y Cyng. Mary Hayes fel Is-gadeirydd hyd at fis Mai 2025.

**7. Gwaith y mis**

**7.1 Biniau halen -** angen adnewyddu'r bin halen yng ngwaelod Ffordd Tanrhiw, dim un wedi bod yno ers blynyddoedd. Bin halen y Rocar wedi torri. Y Clerc i holi am fin halen i stad Cae'r Gors gan Adra. Y Cynghorwyr i wirio biniau yn ei hardal nhw, ac i adrodd i'r Clerc.

**7.2 Cais bin baw ci -** Penderfynwyd gwneud cais ychwanegol am fin baw ci ger mynediad Lôn Las ar Allt Cerriglllwydion.

**7.3 Wal ger Cae'r Gors –** Nodwyd fod wal wedi'i ddifrodi ger y tai newydd, y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd. Y Clerc i ofyn am archwiliad diogelwch ar y ffordd yn dilyn y datblygiad newydd.

**7.4 Cais i estynu'r goleuadau stryd** - Y Clerc i holi os oes modd estynu'r goleuadau stryd o Arafon am Ffarm Bwlch.

**8. Adroddiad Cynrychiolwyr**
Dim.

**9. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu**
**9.1** Pawb wedi derbyn Adroddiad Ariannol gyda rhestr taliadau, derbyniadau a mantolen am flwyddyn gyfredol. Penderfynwyd derbyn yr adroddiad. Adolygu'r gofrestr risg yn y cyfarfod nesaf.

**10. Taliadau**
Dim.

**11. Penderfyniadau Cynllunio**

| | |
|---|---|
| **C18/0767/16/LL** | Coed Wern, Glasinfryn<br>Datblygiad llety gwyliau (cynllun diwygiedig) sy'n golygu:- Gosod sylfeini ar gyfer cabannau gyda decio cysylltiedig. Gosod sylfeini ar gyfer podiau glampio. Seilwaith cysylltiedig i gynnwys ffyrdd mewnol, mannau parcio, systemau draenio cynaliadwy ynghyd a draenio dŵr aflan. Tirlunio meddal a chaled gan gynnwys torri rhai coed, cadw coed ac ymgymryd â gwelliannau i'r goedlan bresennol. Codi derbynfa/adeilad gwerthiant ynghyd ac ail-orchuddio'r adeilad presennol a'i ddefnyddio fel hwb e-beicio gyda phwyntiau gwefru trydan.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/0004/16/LL** | Land at Maes Talog, Tregarth<br>Codi annedd marchnad agored sengl deulawr a garej ddwbl ar wahân.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/0219/16/LL** | Clwb Criced Bangor, Ffordd Llandygai<br>Cael gwared ar ardal ymarfer bresennol [0.02 ha] ac adeiladu ardal ymarfer newydd wedi'i gwella a'i chynyddu [0.03 Ha]<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/0258/16/DT** | 19 Llwybr Main, Mynydd Llandygai<br>Gosod Pwmp gwres ffynhonnell aer ar flaen yr annedd<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/0711/16/LL** | Tanysgafell Isaf, Coed y Parc<br>Adeiladu trac mynediad graean 3m o led newydd i'r safle er mwyn caniatáu mynediad i'r adeiladau a'r safle<br>**Penderfyniad:** Gwrthodwyd. |

| | |
|---|---|
| **C24/0787/16/DT** | 1 Llwybr Main, Mynydd Llandygai,<br>Estyniad unllawr ochr a newidiadau mewnol i annedd presennol<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |

**12. Ceisiadau Cynllunio**

| | |
|---|---|
| **C24/0801/16/CC** | Pont Sarnau, Bethesda<br>Gwaith i goed sy'n destun Gorchymyn Gwarchod Coed<br>**Penderfyniad:** Dim sylw. |
| **C24/0847/16/DT** | 4, Fron Ogwen, Tregarth<br>Adeiladu ystafell ardd yng nghefn y tŷ yn cynnwys ystafell ymolchi a chegin fach i'w defnyddio fel rhan atodol i'r tŷ annedd<br>**Penderfyniad:** Argymell gwrthod y cais, oherwydd mae tŷ gwyliau yw defnydd yr annedd ar hyn o bryd, felly nid 'ystafell ardd' fydd hwn, ond estyniad i'r tŷ gwyliau. Cymdogion lleol wedi cysylltu â'r Cyngor i godi eu pryderon ynglyn â problemau parcio a 'overlooking' i dai a gerddi cyfagos. |
| **C24/0878/16/HY** | Uned 7, Parc Bryn Cegin, , Llandygai<br>Gosod arwyddion wedi'u goleuo a heb eu goleuo<br>**Penderfyniad:** Cefnogi |
| **C24/0982/16/LL** | Tanysgafell Isaf Tanysgafell, Coed Y Parc<br>Adeiladu trac mynediad graean 3m o led newydd i'r safle er mwyn caniatáu mynediad i'r adeiladau a'r safle<br>**Penderfyniad:** Argymell gwrthod, cyflwyno'r un sylwadau ag o'r blaen |

**13. Unrhyw fater brys arall**
**Dim.**

**14. Crynodeb Llais Ogwan**
Penderfynwyd cynnwys yr isod:
- Murlun Canolfan Tregarth
- Biniau baw ci a biniau halen
- Estyniad i oleuadau stryd ym Mynydd Llandygai